**GORCHYMYN CYNGOR BWRDEISTREF SIROL PEN-Y-BONT AR OGWR (CAU LLWYBR TROED DROS DRO) (LLWYBR TROED 12 LLANGRALLO ISAF) 2025**

**RHODDIR HYSBYSIAD TRWY HYN** fod y Cyngor fel yr Awdurdod Priffyrdd ar gyfer Llangrallo Isaf, wrth arfer ei bwerau dan Adran 14(1) Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 (fel y'i diwygiwyd), yn bwriadu gwneud Gorchymyn mewn dim llai na 7 diwrnod o ddyddiad yr Hysbysiad hwn, a fydd yn cau dros dro y llwybrau troed a nodir yn yr atodlen isod. Mae'r Gorchymyn yn angenrheidiol oherwydd cau'r llwybr troed o ganlyniad i'r gwaith o adnewyddu arwyneb croesfan sy'n methu.

**Atodlen**
Rhan o Lwybr Troed 12 Llangrallo Isaf, 188 metr o hyd, o'i gyffordd â Meadow Close ym Mwynt A ac yn mynd tua'r gogledd-ddwyrain, yna tua'r gogledd-orllewin gan ddilyn yr arglawdd cyn troi i'r gogledd a chroesi'r rheilffordd i bwynt B.

Daw'r Gorchymyn i rym ar 21/06/2025 a bydd yn parhau mewn grym am uchafswm o chwe mis neu nes y bydd y gwaith wedi'i gwblhau, p'un bynnag yw'r cynharaf.

Fodd bynnag, bydd y cyfyngiad yn berthnasol dim ond ar adegau ac i'r graddau a ddangosir o bryd i'w gilydd ar arwyddion traffig a osodir gan Reoliadau a Chyfarwyddiadau Cyffredinol Arwyddion Traffig 2016.

Nid oes llwybr amgen addas ar gael.

Dyddiad: 05/06/2025

K Watson, Prif Swyddog - Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Rheoleiddiol – Cyfarwyddiaeth y Prif Weithredwr, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, Swyddfeydd Dinesig, Stryd yr Angel, Pen-y-bont ar Ogwr CF31 4WB
K Watson, Chief Officer - Legal, HR & Regulatory Services, Chief Executive's Directorate, Bridgend County Borough Council, Civic Offices, Angel Street, Bridgend CF31 4WB